

Hannah Blythyn AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Deputy Minister for Housing and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-(P)/HB/1375/19

Russell George AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau d/
o: Gareth Price (Clerc)
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
SeneddEIS@cynulliad.cymru

29 Ebrill 2019

Annwyl Russell,

Diolch am y cyfle i roi tystiolaeth i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar 27 Mawrth 2019. Yn ystod fy sesiwn dystiolaeth, cytunais i ddarparu mwy o dystiolaeth ar ddau faes a amlinellir isod.

Cronfa Datblygu Eiddo Cymru

Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor imi egluro manylion y Gronfa Datblygu Eiddo, gan gynnwys y gyfradd log a godir arni a pha gyfran o'r gwerth datblygu y mae Banc Datblygu Cymru yn rhoi benthyg. Rwyf wedi cael cadarnhad bod Banc Datblygu Cymru yn rhoi benthyg ar gyfraddau llog o rhwng 4% ac 8% (caiff hyn ei adolygu'n rheolaidd yn unol â pholisi prisio Banc Datblygu Cymru o dan Egwyddor Gweithredwr Economi'r Farchnad).

At hyn, mae'r Gronfa Datblygu Eiddo yn cynnig hyd at 65% o'r gwerth datblygu gros, gan gynnwys hyd at 100% o'r costau adeiladu. Mae hyn yn wahanol i Gronfa Safleoedd Segur Cymru, sy'n cynnig hyd at 80% o'r gwerth datblygu gros, gan gynnwys hyd at 100% o'r costau adeiladu. Mae mwy o wybodaeth am y ddau gynllun wedi'u darparu fel atodiad i'r llythyr hwn.

Rhan busnesau bach a chanolig yng nghynllun Cymorth i Brynu Cymru

Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor imi egluro hefyd y rhan sydd gan fusnesau bach a chanolig o fewn y cynllun Cymorth i Brynu. Fel mae'r aelodau yn gwybod, mae'r diffiniad a ddefnyddir gan Gymorth i Brynu o adeiladwr bach (10 tŷ neu lai y flwyddyn) yn wahanol i ddiffiniad traddodiadol y Comisiwn Ewropeaidd o fusnes bach a chanolig. Nid yw Cymorth i Brynu yn casglu data ar sail y diffiniad traddodiadol o fusnes bach a chanolig.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


Mae Cymorth i Brynu Cymru wedi cadarnhau bod y rhan fwyaf (65%) o'r cartrefi a gaiff eu gwerthu drwy'r cynllun yn cael eu gwerthu gan y pum cwmni cenedlaethol mawr. Er na allwn gadarnhau p'un a yw'r 35% arall yn fusnesau bach a chanolig o fewn diffiniad y Comisiwn Ewropeaidd, rydym yn gwybod bod:

50+ o gartrefi wedi'u hadeiladu gan 18 cwmni
11-50 o gartrefi wedi'u hadeiladu gan 26 cwmni
0-10 o gartrefi wedi'u hadeiladu gan 92 cwmni
71 cwmni heb gwblhau

O dynnu'r pum cwmni cenedlaethol mawr o'r band cyntaf, gwyddom fod y gweddill yn fusnesau bach a chanolig, a bod y mwyafrif yn fusnesau canolig. Gallwn ddweud i sicrwydd, felly, mai busnesau bach a chanolig yw'r cwmnïau sy'n weddill yn y categorïau eraill hefyd.

Hoffwn nodi eto'r pwys yr ydyn ni, fel Llywodraeth, yn ei roi ar fusnesau bach a chanolig mewn perthynas â'n huchelgais i ddarparu 20,000 o gartrefi fforddiadwy yn ystod tymor y Cynulliad hwn, a'n dymuniad ehangach i gyflymu'r gwaith o adeiladu tai. Edrychaf ymlaen at glywed safbwyntiau'r Pwyllgor ar sut y gallwn gymryd camau i gefnogi ac annog amrywiaeth ehangach o sefydliadau yn y sector tai i adeiladu cartrefi cymdeithasol gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael inni.

Yn gywir,



Hannah Blythyn AC/AM

Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Deputy Minister for Housing and Local Government